# GADAEL TEIMLADAU ALLAN

## 1 awr

**Creu amgylchedd dysgu diogel a chadarnhaol trwy gytuno ar reolau sylfaenol i'r wers.**

**Yn y wers hon byddwn yn dysgu:**

- am fuddion a pheryglon mynegi ein teimladau
- sut y gallwn fynegi teimladau mewn ffyrdd gwahanol trwy ddefnyddio geiriau ysgrifenedig
- sut y gall barddoniaeth a sianelau creadigol eraill helpu gyda mynegi teimladau.

## Adnoddau

- Cerdd "A Poison Tree"
- Cerdd "The Door"
- sleid 'teimladau'
- cardiau 'teimladau'
- papur ac ysgrifbinnau i'r myfyrwyr.

## Gweithgaredd

1. Dangoswch gerdd "A Poison Tree"(sleid) i'r dosbarth. Beth mae'r gerdd yn sôn amdano, yn eu tyb nhw?

2. Trafodwch ystyr y gerdd mewn parau ac adroddwch yn ôl.

3. Edrychwch ar y sleid 'teimladau'. Gofynnwch i bob myfyriwr ddewis teimlad.

4. Wedyn byddan nhw'n defnyddio'r strwythur hwn:
   *Des i o hyd i'r hadau…*
   *Plannais i nhw…*
   *Dyfrheais i nhw gyda…*
   *Nes i'r goeden dyfu'n…*
   *Ac yn ei changhennau uchaf tyfodd…*
   *Yn y nos y gwynt yn y goeden oedd sŵn...*
   *A gwyddwn mai fi oedd piau'r goeden wenwyn hon.*

5. Dyma enghraifft o gerdd lle bydd cadw teimladau i'ch hunan yn peri iddyn nhw dyfu a mynd yn fwy:
   Des i o hyd i'r hadau wedi'u glynu wrth gefn drych Eira Wen,
   Plannais i nhw y tu allan i ffenestr fy stafell wely lle gallwn eu gwylio nhw,
   Dyfrheais i nhw gyda chola braster isel,
   Nes iddi dyfu'n osgeiddig ac yn denau,
   Ac yn ei changhennau uchaf tyfodd ffrwythau balchder,
   Yn hardd eu golwg, ond yn bwdr eu blas,
   Yn y nos arhosodd y gwynt i ffwrdd o'm coeden oedd yn marw.
   A gwyddwn mai fi oedd piau'r goeden wenwyn hon.

6. Mae'r myfyrwyr yn gweithio mewn grwpiau bach neu barau.

7. Tua diwedd y wers, rhannwch y gwaith mae'r myfyrwyr wedi'i wneud. Anogwch y myfyrwyr i rannu beth y gellid ei wneud bob tro i atal y 'goeden wenwyn' rhag tyfu.
8. Trafodwch fuddion a pheryglon cadw teimlad anodd iddyn nhw eu hunain, a sut y gall y 'goeden wenwyn' dyfu os na chaiff ei rhannu.
9. Gall y myfyrwyr drafod â phwy y gallan nhw siarad os oes ydyn nhw angen rhannu rhywbeth anodd. Atgoffwch nhw am eu rhwydweithiau cefnogi yn yr ysgol a'r tu allan.
10. Darllenwch y gerdd 'The Door' i'r dosbarth.
11. Trafodwch sut y gall gwaith creadigol (celf, barddoniaeth, creu pethau, drama) helpu gyda mynegi teimladau.
    Beth mae'r myfyrwyr yn meddwl am hyn? Ydi'r pethau hyn yn ein helpu ni? Sut?

## Myfyrio

Mae teimladau'n wahanol i ni i gyd. Mae'n helpu i ddefnyddio geiriau i ddisgrifio pa mor ddwys yw ein teimladau. Mae haws disgrifio a siarad am rai teimladau nag eraill.

Ydw i'n teimlo y gallaf fynegi sut rwy'n teimlo? Sut allai hyn fy helpu i?

**Gwnewch yn siŵr bod y bobl ifanc yn gwybod pa gefnogaeth sydd ar gael a sut i gael gafael ar y gefnogaeth hon.**